# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Ystafell Gynadledda A - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2017

Amser: 13.42 - 17.23

# WRB(11)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Ronnie Alexander<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts |
| Swyddogion: | Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Rebecca Hardwicke, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Carys Rees, Partner Busnes Adnoddau Dynol yr Aelodau<br>Helen Jones, Uwch-swyddog Ymchwil<br>Donna Davies, Pennaeth Pensiynau |
| Tîm clercio: | Daniel Collier, Clerc dros dro<br>Sian Giddins, Dirprwy Glerc<br>Lleu Williams, Clerc |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod. Ar ran y Bwrdd, llongyfarchodd y Cadeirydd Ronnie Alexander ar ei benodiad i'r Bwrdd a'i groesawu i'w gyfarfod Bwrdd cyntaf.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Lleu Williams, a benodwyd yn Glerc newydd i'r Bwrdd Taliadau. Hefyd, ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i Dan Collier am ei waith i'r Bwrdd a'i longyfarch ar ei ddyrchafiad diweddar.

1.3 Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2017.

1.4 Nododd y Bwrdd ei raglen waith ar gyfer gweddill 2017 a dyddiadau ei gyfarfodydd hyd at fis Mawrth 2019. Cytunodd y Bwrdd i ddefnyddio'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd ym mis Hydref a mis Tachwedd 2017.

1.5 Cytunodd y Bwrdd i estyn gwahoddiad ffurfiol i Gadeirydd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i'w gyfarfod ym mis Hydref 2017 i drafod y materion a allai ymwneud â gwaith y Bwrdd yn y dyfodol wrth ddatblygu Penderfyniad sy'n addas i'r Chweched Cynulliad.

1.6 Dywedodd yr Ysgrifenyddiaeth wrth y Bwrdd y byddai papur yn amlinellu'r broses a ddefnyddir gan Gymorth Busnes yr Aelodau wrth weinyddu hawliadau yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref.

1.7 Trafododd y Bwrdd y broses ar gyfer adolygu diogelwch swyddfeydd a chartrefi'r Aelodau a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth atgoffa Aelodau am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

1.8 Anfonodd y Bwrdd gydymdeimladau at deulu Sam Gould, uwch-gynghorydd Nathan Gill AC, ac at deulu Ben Davies, dirprwy bennaeth staff y Ceidwadwyr Cymreig, yn eu profedigaeth.

1.9 Nododd y Bwrdd y cwestiwn a ofynnwyd yn ystod Cwestiynau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf a chytunodd i ystyried rôl interniaethau cyflogedig gydag Aelodau'r Cynulliad fel rhan o'i adolygiad ehangach o gymorth i Aelodau

**Camau gweithredu**:
Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn

- cyhoeddi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai;
- gwahodd Cadeirydd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref 2017;
- paratoi papur sy'n amlinellu'r broses y mae Cymorth Busnes yr Aelodau yn ei defnyddio wrth weinyddu hawliadau; ac
- atgoffa Aelodau o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt o ran adolygiadau diogelwch.

## 2 Eitem ar gyfer penderfyniad: Adolygiad o Brisiad Actiwaraidd Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

2.1 Trafododd y Bwrdd y papur ar yr adolygiad o Brisiad Actiwaraidd Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

2.2 Cadarnhaodd y Bwrdd eu bod yn fodlon â chyfradd gyfrannu uwch y Comisiwn a chytunwyd i hysbysu Actiwari'r Cynllun, sy'n gosod cyfradd cyfraniad y Comisiwn.

**Cam gweithredu:**

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn hysbysu Actiwari'r Cynllun o safbwyntiau'r Bwrdd.

## 3 Eitem i'w drafod: Ystyried canlyniadau'r arolwg o Aelodau a Staff Cymorth ar effeithiolrwydd y Penderfyniad

3.1 Trafododd y Bwrdd ganlyniadau'r arolwg o Aelodau a Staff Cymorth ar effeithiolrwydd y Penderfyniad a chytunodd ar:

- gyhoeddi crynodeb o'r canlyniadau ar wefan y Bwrdd a dwyn y crynodeb hwn at sylw'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad; a
- ystyried canlyniadau'r arolwg fel rhan o'i adolygiad o strwythur gyrfa Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a'u telerau ac amodau.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd yr ysgrifenyddiaeth ar:

- ymgorffori'r canlyniadau perthnasol i bapurau cwmpasu yn y dyfodol, er enghraifft yr adolygiad o strwythur gyrfa Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad; a
- chyhoeddi adroddiad cryno o'r canlyniadau.